

# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Mai. Gellir cael copi o'r Bil yn: [Skills and Post-16 Education Bill \[HL\] publications - Parliamentary Bills - UK Parliament](#).

### Amcan(ion) polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw darparu'r sail ddeddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer y diwygiadau a nodir yn y Papur Gwyn ar Sgiliau ar gyfer Swyddi. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn ystyried bod y Bil yn ceisio gwella gweithrediad y system sgiliau ac addysg ôl-16 a chefnogi cyflwyno Gwarant Sgiliau Gydol Oes. Mae Llywodraeth y DU, drwy'r Bil hwn, yn dymuno cyflwyno mesurau i fynd i'r afael ag argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad o Addysg a Chyllid Ôl-18, i adeiladu ar nodau'r Adolygiad o Gymwysterau Ôl-16 ar Lefel 3 ac is, ac i gefnogi gweithredu diwygiadau Llywodraeth y DU i gymwysterau addysg dechnegol, megis cyflwyno Lefelau T (cyrsiâu sy'n cyfateb i 3 Safon Uwch ac yn cynnwys lleoliad diwydiant) a chymwysterau technegol uwch.

### Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan yr Adran Addysg.
5. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer:
  - rhoi sail statudol i gynlluniau gwella sgiliau lleol;
  - rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg ddynodi cyrff sy'n cynrychioli cyflogwyr i arwain y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau gyda dyletswyddau ar ddarparwyr i gydweithredu wrth ddatblygu'r cynlluniau a rhoi sylw iddynt;
  - gosod dyletswydd ar bob corfforaeth addysg bellach (AB), corfforaeth coleg chweched dosbarth a sefydliad dynodedig i adolygu pa mor dda y mae'r addysg neu'r hyfforddiant a ddarperir gan y sefydliad yn diwallu anghenion lleol, ac asesu pa gamau y gallai'r sefydliad eu cymryd i ddiwallu anghenion lleol;
  - rhoi pŵer i'r Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol ddiffinio a chymeradwyo categorïau newydd o gymwysterau technegol sy'n gysylltiedig â safonau a arweinir gan gyflogwyr a galwedigaethau, a

goruchwylio'r addysg dechnegol a gynigir ym mhob llwybr galwedigaethol, gan gynnwys mecanweithiau i reoli'r broses o ddatblygu cymwysterau;

- gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol yn ymwneud â chyflwyno Hawl i Fenthyciad Gydol Oes gan gynnwys newidiadau i bwerau gwneud rheoliadau'r Ysgrifennydd Gwladol i ddarparu cyllid myfyrwyr er mwyn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer ariannu modiwlau addysg uwch (AU) a chysiau AB ac ar gyfer rhagnodi'r uchafswm cyllid cyffredinol y gall dysgwyr ei gael;
- i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg wneud rheoliadau er mwyn sicrhau neu wella ansawdd hyfforddiant cychwynol athrawon AB;
- rhoi y tu hwnt i amheuaeth allu'r Swyddfa Myfyrwyr i asesu ansawdd darparwyr AU yn Lloegr, a gwneud penderfyniadau ar gydymffurfio a chofrestru drwy gyfeirio at ofynion sylfaenol ar gyfer ansawdd;
- i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer rhestr o ddarparwyr addysg neu hyfforddiant ôl-16, yn enwedig Darparwyr Hyfforddiant Annibynnol, i nodi pa ddarparwyr sydd wedi bodloni amodau sydd wedi'u cynllunio i atal neu liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â darparwr yn rhoi'r gorau i ddarparu addysg a hyfforddiant mewn ffordd afreolus;
- ymestyn y pwerau ymyrryd statudol sy'n gymwys i gorfforaethau AB, corfforaethau colegau chweched dosbarth a sefydliadau dynodedig o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 er mwyn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg i ymyrryd lle bu methiant i ddiwallu anghenion lleol, ac i gyfeirio newid strwythurol lle mae angen hynny er mwyn sicrhau gwelliant; a
- gwneud diwygiadau i egluro a gwella gweithrediad y gyfundrefn ansolfedd AB ar gyfer cyrff AB, o ran defnyddio trefniadau gwirfoddol cwmnïau, cynlluniau trosglwyddo a dynodi sefydliadau.

### **Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

6. Mae cymalau 1 a 4 yn ymdrin â chynlluniau gwella sgiliau lleol. Mae'r Bil yn ceisio creu fframwaith cyfreithiol i hwyluso ymgysylltiad cryfach â chyflogwyr a darparwyr mewn systemau sgiliau lleol yn Lloegr. Y bwriad yw y bydd y fframwaith yn sicrhau bod cyflogwyr yn cael mwy o ddylanwad ar y system sgiliau, a fydd yn helpu darparwyr i ymateb i anghenion sgiliau cyflogwyr ac ail-lunio eu cynnig. Bydd cyrff sy'n cynrychioli cyflogwyr yn gweithio gyda chyflogwyr, darparwyr a rhanddeiliaid lleol i ddatblygu cynlluniau sy'n nodi'r newidiadau allweddol sydd eu hangen i sicrhau bod addysg a hyfforddiant technegol yn fwy ymatebol i anghenion sgiliau'r farchnad lafur leol.
7. Mae Cymal 1 yn gosod dyletswyddau ar ddarparwyr perthnasol sy'n darparu addysg neu hyfforddiant technegol ôl-16 sy'n berthnasol i ardal benodedig a ddiffinnir yng nghymal 1(2). Diffinnir y term "ardal benodedig" (*specified area*) yng nghymal 4(1) a Chymal 2(1) fel ardal yn Lloegr. Mae cymal 1(3) yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr perthnasol gydweithredu â'r corff sy'n cynrychioli cyflogwyr wrth ddatblygu cynllun gwella sgiliau lleol ar gyfer ardal benodedig i'w gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w

gymeradwyo a'i gyhoeddi. Os oes cynllun gwella sgiliau lleol cymeradwy ar gyfer yr ardal benodedig, mae cymal 1(4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr perthnasol gydweithredu â chorff cynrychioladol y cyflogwr ar gyfer yr ardal honno er mwyn helpu'r corff i adolygu'r cynllun yn barhaus a datblygu cynllun newydd i'w gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol lle bo angen. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr perthnasol roi sylw i'r cynllun wrth wneud penderfyniadau ar ddarpariaeth berthnasol yn yr ardal benodedig yn ogystal ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

8. Mae Cymal 4(1) yn diffinio'r term "darparwr perthnasol" fel darparwr addysg neu hyfforddiant technegol ôl-16 sef:
  - sefydliad yn y sector addysg bellach (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992),
  - darparwr addysg uwch (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 83(1) o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017),
  - darparwr hyfforddiant annibynnol, neu
  - awdurdod lleol yn Lloegr, Academi 16 i 19 neu ysgol a nodir neu a ddisgrifir mewn rheoliadau a wneir drwy offeryn statudol gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
9. Gan fod darparwyr yng Nghymru'n gallu darparu addysg neu hyfforddiant technegol ôl-16 yr ystyrir ei fod yn berthnasol i ardal benodedig yn Lloegr, gall rhai darparwyr yng Nghymru ddod o fewn cwmpas y dyletswyddau uchod mewn perthynas â darpariaeth o'r fath.
10. Mae cymal 14 yn diwygio Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i roi sglein i adran 22 o'r Ddeddf honno (sy'n bŵer galluogi i wneud rheoliadau cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru a Lloegr) fel bod modiwlau cyrsiau AU neu AB (ac nid cyrsiau o'r fath yn unig) yn gallu denu cymorth i fyfyrwyr.
11. Mae rhai o swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf 1998 i'w harfer mewn perthynas â Chymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol. Nid oes yr un o'r addasiadau yn ymwneud yn benodol â swyddogaethau sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru o dan y ddarpariaeth hon. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu gwneud rheoliadau yn y dyfodol sy'n gweithredu'r Hawl i Fenthyciad Gydol Oes a bydd yn dibynnu ar swyddogaethau diwygiedig yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 at y diben hwn. Mae'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â'i diwygiadau arfaethedig i adran 22 o Ddeddf 1998 yn golygu y bydd yr addasiadau a gymhwysir mewn perthynas â modiwlau cyrsiau yn cael eu dwyn ymlaen i ddarpariaethau sy'n arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol (yn gydredol â Gweinidogion Cymru) mewn perthynas â Chymru, ac felly maent yn ddiwygiadau'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru.
12. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn am eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y maent yn ymwneud ag addysg.

## **Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16**

13. Mae posibilrwydd y bydd cymalau 1 a 4 o'r Bil yn effeithio ar sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg dechnegol ôl-16 sy'n berthnasol i ardal yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai'r cymalau hyn gael yr effaith o osod dyletswyddau ar sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg yng Nghymru yn unig sydd hefyd ar gael i fyfyrwyr o Loegr os yw'r ddarpariaeth yn berthnasol i ardal benodedig yn Lloegr, yn ogystal â sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg o'r fath yn Lloegr. Gallai dyletswyddau o'r fath ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau yng Nghymru ystyried anghenion sgiliau cyflogwyr yn Lloegr ar yr un pryd ag ymateb i anghenion sgiliau cyflogwyr yng Nghymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
14. Mae cymal 14 yn galluogi bwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno system o gymorth modiwlaid i fyfyrwyr mewn perthynas â myfyrwyr sy'n hanu o Loegr. Mae'r angen i gael cydsyniad deddfwriaethol y Senedd yn ganlyniad i'r pwerau cydredol rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru o ran y swyddogaethau cymorth i fyfyrwyr o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, fel y'u datganolwyd i Gymru. Nid yw cymal 14 yn effeithio'n uniongyrchol ar swyddogaethau cymorth i fyfyrwyr Gweinidogion Cymru. Efallai y bydd gan gynnig Llywodraeth y DU i gyflwyno cymorth modiwlaid i fyfyrwyr yn Lloegr oblygiadau i drefn cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru. Mewn egwyddor, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi system fwy hyblyg o gymorth i fyfyrwyr.

### **Goblygiadau ariannol**

15. Gallai cymalau 1 a 4 fod â goblygiadau ariannol i sefydliadau yng Nghymru lle mae sefydliadau o'r fath yn darparu addysg neu hyfforddiant ôl-16 yr ystyrir ei fod yn berthnasol i ardal benodedig yn Lloegr. Mae'n anodd asesu maint goblygiadau o'r fath a allai godi yn sgil gofynion gweinyddol newydd sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir gan gymal 1 neu alwadau niferus am y cyllid a ddarperir gan Weinidogion Cymru. Bydd y goblygiadau i sefydliad unigol yn dibynnu p'un a ystyrir bod ei ddarpariaeth yn berthnasol i ardal benodedig yn Lloegr.
16. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yng Nghymru yn deillio o gymal 14 pe bai'r Senedd yn cydsynio i'r darpariaethau. Y rheswm am hyn yw bod y darpariaethau ond yn gymwys i arfer swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr sy'n gydredol â rhai Gweinidogion Cymru. Nid yw'r darpariaethau'n galluogi trefniadau diwygiedig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru.

### **Casgliad**

17. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r gwelliannau mewn perthynas ag adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1992 yn y Bil hwn gan Lywodraeth y DU gan fod y darpariaethau'n diwygio swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr ac nid ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar swyddogaethau cymorth i fyfyrwyr Gweinidogion Cymru. Felly, argymhellaf y dylai'r Senedd roi ei chydysyniad i gymal 14.
18. Mae gan gymalau 1 a 4 o'r Bil oblygiadau i sefydliadau yng Nghymru fel y nodir uchod. Ni allaf argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r darpariaethau hyn yn y Bil fel y'i cyflwynwyd ar 18 Mai 2021. Credaf fod gosod dyletswyddau ar sefydliadau yng Nghymru yn fater sydd wedi'i ddatganoli. At hynny, gallai'r darpariaethau hyn osod beichiau diangen ar sefydliadau yng Nghymru. Gallai hyn arwain at ddargyfeirio adnoddau sefydliad yng Nghymru yn groes i'r gofyniad datganoledig i gyfeirio adnoddau mewn ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r rhai a nodwyd gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yng Nghymru. Rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg i ofyn i'r Bil gael ei ddiwygio i ymdrin â'm pryderon.

**Jeremy Miles AS**  
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**  
**9 Gorffennaf 2021**